THE INSOLVENCY SERVICE

www.insolvency.gov.uk

Beth sy'n digwydd pan gewch gyfweliad gan y derbynnydd swyddogol?

Gwybodaeth i fethdalwyr a chyfarwyddwyr cwmnïau sydd wedi eu diddymu'n orfodol ynglŷn â gwaith y derbynnydd swyddogol

CHARTER MARK

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE

INVESTOR IN PEOPLE

Mae'r daflen hon yn cynnwys y cwestiynau rydych yn fwyaf tebygol o'u gofyn am broses ac amserlen methdaliad neu ddiddymiad gorfodol.

Sut mae methaliad neu ddiddymiad gorfodol yn digwydd?

Pwy yw'r derbynnydd swyddogol?

Beth yw fy nyletswyddau?

Sut fydd y derbynnydd swyddogol yn cael gwybodaeth gennyf?

Beth ddylwn i ei wneud cyn y cyfweliad?

Beth fydd yn digwydd yn y cyfweliad cyntaf yn y swyddfa?

Beth fydd yn digwydd yn y cyfweliad cyntaf ar y teleffon?

A fydd angen i fi gael cyfweliad eto?

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pa mor hir fydd y broses?

Sut allaf fi gael rhagor o wybodaeth?

Sut mae methaliad neu ddiddymiad gorfodol yn digwydd?

Mae llys yn gwneud gorchymyn ansolfedd (gorchymyn methdaliad yn erbyn unigolyn neu orchymyn dirwyn i ben yn erbyn cwmni) ar ôl i ddeiseb gael ei chyflwyno yn y llys a'i chyflwyno i chi neu'r cwmni. Caiff y ddeiseb ei chyflwyno fel arfer naill ai:

- gennych chi (mewn methdaliad); neu
- un neu fwy credydwr y mae arnoch o leiaf £750 iddo.

Pwy yw'r derbynnydd swyddogol?

Gweision sifil yn y Gwasanaeth Ansolfedd yw derbynyddion swyddogol ac maen nhw'n swyddogion y llys. Mae'r llys yn rhoi gwybod iddynt am orchymyn methdaliad neu ddirwyn i ben.

Mae eich derbynnydd swyddogol lleol yn gyfrifol drwy ei staff am weinyddu cyfnod cychwynnol eich achos ansolfedd o leiaf. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys casglu ac amddiffyn unrhyw asedau ac ymchwilio i achosion y methdaliad neu'r dirwyn i ben.

Beth yw fy nyletswyddau?

Fel methdalwr neu gyfarwyddwr cwmni sydd wedi'i ddiddymu'n orfodol, mae gennych ddyletswydd i gydymffurfio â chais y derbynnydd swyddogol i roi gwybodaeth am eich materion ariannol chi neu'r cwmni, gan gynnwys mynychu am gyfweliad yn ôl y gofyn. Mae mwy o wybodaeth am eich dyletswyddau ar gael yn ein taflenni 'Guide to Bankruptcy' [Canllaw i Fethdaliad] a 'Guide for

Directors' [Canllaw i Gyfarwyddwyr], sydd ar gael o swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol neu wefan y Gwasanaeth Ansolfedd (www.insolvency.gov.uk).

Sut fydd y derbynnydd swyddogol yn cael gwybodaeth gennyf?

Bydd staff y derbynnydd swyddogol yn cysylltu â chi ar unwaith os ydynt yn gwybod bod angen gweithredu ar frys mewn perthynas â'ch asedau chi neu'r cwmni. Fel arall, byddant yn cysylltu â chi ymhen 2 ddiwrnod gwaith o gael y gorchymyn ansolfedd. Fel arfer, byddant yn trefnu apwyntiad i chi fynd i swyddfa'r derbynnydd swyddogol am gyfweliad, ar ddyddiad sy'n gyfleus i bawb fel arfer. Fel arall, ac mewn perthynas â methdaliad yn unig, efallai bydd y derbynnydd swyddogol yn awgrymu cyfweliad teleffon. Mae cyfweliadau teleffon yn cael eu cynnal fel arfer:

- pan fyddwch wedi cyflwyno'ch deiseb eich hun
- pan na fyddwch wedi masnachu'n ddiweddar
- pan na fyddwch wedi'ch gwneud yn feth-dalwr o'r blaen
- pan fydd rhif teleffon ar gael ar eich cyfer.

Os cynigir cyfweliad teleffon ichi ond byddai'n well gennych gael cyfweliad yn bersonol, dywedwch hyn wrth y derbynnydd swyddogol. Ni waeth a gewch gyfweliad yn bersonol neu ar y teleffon, byddwch chi'n cael llythyr sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol gennych ac efallai bydd gofyn ichi lenwi holiadur. Mwyaf trefnus ydych chi, mwyaf syml fydd y broses.

Os byddwch wedi cyflwyno'ch deiseb methdaliad eich hun, gallech gael cyfweliad gan y derbynnydd swyddogol, yn y llys neu yn swyddfa'r derbynnydd swyddogol, yn union ar ôl gwneud y gorchymyn methdaliad.

Beth ddylwn i ei wneud cyn y cyfweliad?

Cyn y cyfweliad, dylech wneud 3 pheth:

- Ffonio'r derbynnydd swyddogol ar unwaith i gadarnhau'r apwyntiad os na fyddwch eisoes wedi gwneud hynny neu:
    - os oes gennych unrhyw wendid, anabledd neu anhawster arall a allai, yn eich barn chi, fynnu cyfleusterau arbennig wrth fynd i'w swyddfa neu yn ystod y cyfweliad teleffon
    - os oes unrhyw faterion y mae angen eu trin ar frys
    - os oes angen ichi aildrefnu'r apwyntiad
    - os yw'r derbynnydd swyddogol wedi gofyn am lawer o waith papur neu gofnodion cyfrifyddu a bod angen mwy o amser arnoch i'w casglu.
- Llenwch yr holiadur (os gofynnwyd ichi lenwi un) a gwnewch nodyn o unrhyw bwyntiau nad ydych yn eu deall. Neu gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein ar ein gwefan yn www.insolvency.gov.uk yn 'Complete your forms online'.
- Casglwch yr holl gofnodion ariannol, gwaith papur, ac unrhyw wybodaeth arall y bydd ei hangen arnoch ar gyfer y cyfweliad. Mae hyn yn golygu pob

cofnod cyfrifyddu; papurau ariannol (er enghraifft llythyrau, cyfriflenni, cofnodion banc, cytundebau hurbwrcas, datganiadau cerdyn credyd); y set ddiwethaf o'ch cyfrifon chi neu'r cwmni; unrhyw waith papur perthnasol arall amdanoch chi (a'ch busnes) neu'r cwmni.

Os ydych yn cael cyfweliad teleffon, mae'n rhaid ichi ddychwelyd yr holiadur wedi'i lenwi i'r derbynnydd swyddogol erbyn dyddiad penodol. Os na fyddwch yn gwneud hyn neu os na fyddwch yn ateb yr holiadur yn llawn, gellid gofyn ichi fynychu am gyfweliad yn bersonol. Dylai'r cofnodion ariannol, y gwaith papur ac unrhyw wybodaeth arall fod ar gael pan gynhelir y cyfweliad teleffon.
Os cewch gyfweliad yn bersonol, dylech fynd â'r holiadur wedi ei lenwi a'r cofnodion ariannol, y gwaith papur ac unrhyw wybodaeth arall gyda chi i'r cyfweliad.

Peidiwch ag anwybyddu staff y derbynnydd swyddogol gan obeithio y byddant yn gadael llonydd ichi. Ni fyddan nhw'n mynd i ffwrdd. Os na fyddwch yn cydweithredu, efallai bydd rhaid ichi fynd i'r llys i gael eich holi a gallech gael eich arestio hyd yn oed os byddwch yn gwrthod cydweithredu o hyd. Mewn methdaliad, gellid hefyd oedi eich rhyddhad o achos methdaliad, a fyddai'n golygu y gallai eich methdaliad bara llawer hirach na'r 12 mis arferol. 'Mewn cwmni, gallai methu cydweithredu fod yn rheswm hefyd dros eich gwahardd am gyfnod o 2-15 mlynedd rhag rheoli cwmni yn y dyfodol.'

Beth fydd yn digwydd yn y cyfweliad cyntaf yn y swyddfa?

Dylech fynd at ddesg y dderbynfa pan gyrhaeddwch. Gallwch ddisgwyl gael eich gweld ar amser yr apwyntiad, neu'n sicr nid mwy na 5 munud ar ôl amser a drefnwyd ar gyfer yr apwyntiad. Wedyn, mewn ystafell gyfweld breifat:

- bydd aelod o staff y derbynnydd swyddogol yn gwirio eich holiadur (os gofynnwyd ichi lenwi un). Os nad ydych wedi llenwi'r holiadur, bydd gofyn ichi wneud hynny yn y fan a'r lle
- byddwch chi'n cael cyfweliad gan archwiliwr (aelod o staff sy'n arbenigo mewn materion ansolfedd) a fydd yn trafod manylion eich asedau a'ch dyledion chi neu'r cwmni, a'r ffeithiau a'r amgylchiadau a arweiniodd at yr ansolfedd
- dylech drosglwyddo eich holl gofnodion a phapurau ariannol chi neu'r cwmni. Byddant yn cael eu harchwilio a'u cofnodi wedyn neu mewn cyfweliad diweddarach a bydd y derbynnydd swyddogol yn eu cadw.

Dylech deimlo'n rhydd i ofyn unrhyw gwestiynau am y drefn neu am eich achos chi pan fyddwch yn swyddfa'r derbynnydd swyddogol.

Yn ôl natur eich achos, gall y cyfweliad gymryd 2-3 awr i'w gwblhau.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfweliad cyntaf ar y teleffon?

Bydd archwiliwr yn eich ffonio ar yr amser a'r dyddiad a gytunwyd. Bydd yr archwiliwr:

- yn archwilio'r wybodaeth yn yr holiadur (os gofynnwyd i chi lenwi un)
- yn gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen am eich asedau a'ch dyledion, a'r ffeithiau a'r amgylchiadau a arweiniodd at yr ansolfedd
- yn delio ag unrhyw ymholiadau sydd gennych efallai am y drefn neu eich achos.

Bydd yr archwiliwr yn dweud wrthych hefyd os oes angen ichi roi gwybodaeth bellach am eich materion. Mae cyfweliadau teleffon fel arfer yn cymryd hanner awr o leiaf, ac efallai mwy.

A fydd angen i fi gael cyfweliad eto?

Gellir gofyn i chi ddod i gyfarfod arall, yn enwedig:

- os oes angen mwy o amser ar yr archwiliwr i gwblhau ymholiadau i'ch materion chi neu'r cwmni
- os na allwch, neu os nad ydych wedi darparu'r holl gofnodion ariannol y gofynnodd y derbynnydd swyddogol amdanynt
- os oes angen mwy o fanylion ar yr archwiliwr am eich asedau, dyledion a'ch materion ariannol chi neu'r cwmni
- os na allwch ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y derbynnydd swyddogol
- os nad ydych yn cyrraedd am unrhyw apwyntiad

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl y cyfweliad, bydd y derbynnydd swyddogol yn archwilio'r wybodaeth a roesoch.
Bydd ef neu hi'n cyhoeddi adroddiad i gredydwyr (a chyfranddalwyr mewn achos o ddirwyn i ben), sy'n nodi eich asedau a'ch dyledion chi neu'r cwmni. Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel arfer ymhen 8 wythnos o'r gorchymyn ansolfedd (ond ymhen 12 wythnos sut bynnag).
Os oes unrhyw asedau materol, gall ef neu hi geisio penodi ymarferwr ansolfedd sector preifat i fod yn ymddiriedolwr neu ddatodwr i ddelio â sylweddu a dosbarthu'r asedau.
I wneud hyn, bydd y derbynnydd swyddogol naill ai'n galw cyfarfod credydwyr er mwyn iddynt benodi ymarferwr neu'n gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi rhywun. Os yw cyfarfod credydwyr yn briodol, caiff ei gynnal fel arfer ymhen 12 wythnos (ond ymhen 4 mis sut bynnag) o'r gorchymyn ansolfedd. Gellir gofyn i chi ddod i'r cyfarfod credydwyr. Byddwch chi'n cael gwybod os bydd ymarferwr ansolfedd yn cael ei benodi'n ymddiriedolwr neu ddatodwr. Bydd angen ichi helpu'r ymddiriedolwr neu'r datodwr ddelio â'ch materion chi neu'r cwmni drwy gydweithredu'n llawn. Os nad oes unrhyw asedau materol, bydd y derbynnydd swyddogol yn parhau i ddelio â phopeth.

Pa mor hir fydd y broses?

Mae'r hyn sy'n digwydd nesaf, a pha mor hir mae'n ei gymryd, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos. Os ydych wedi

darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ac os na ddisgwylir unrhyw broblemau wrth ddelio â'r asedau, efallai na fyddwch yn clywed gan y derbynnydd swyddogol eto. Gellir delio ag unrhyw faterion sydd dros ben, fel dweud wrth y derbynnydd swyddogol am unrhyw newid cyfeiriad, drwy lythyr neu deleffon. Mewn achos o ddirwyn i ben, efallai mai hynny fydd diwedd y mater. Pan fydd eich ymddiriedolwr yn gwneud taliad i'ch credydwyr, gall osod hysbyseb am eich methdaliad mewn papur newydd yn gofyn i gredydwyr gyflwyno eu hawliadau. Os bydd yn cymryd amser hir i'ch ymddiriedolwr ddelio ag ased, gall yr hysbyseb hon ymddangos sawl blwyddyn ar ôl y gorchymyn methdaliad.

Hyd methdaliad. Mewn methdaliad, byddwch fel arfer yn parhau'n fethdalwr am 12 mis ar y mwyaf. Gall y cyfnod hwn fod yn fyrrach os bydd y derbynnydd swyddogol yn cwblhau ei ymholiadau i'ch materion yn gynt ac yn cofnodi hysbysiad yn y llys. Ar ôl yr amser hwn, byddwch chi'n cael eich rhyddhau'n awtomatig o gyfyngiadau methdaliad. Os ydych wedi ymddwyn yn anonest neu os buoch ar fai mewn rhyw ffordd am eich methdaliad, gellir gwneud gorchymyn cyfyngiadau methdaliad yn eich erbyn chi. Bydd hyn yn golygu y byddwch chi'n parhau i fod yn destun cyfyngiadau methdaliad am 2-15 mlynedd bellach. Os na fyddwch yn cydweithredu â'r derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr, gellir gofyn i'r llys ohirio'r cyfnod rhyddhau. Os bydd y llys yn cytuno, ni fydd eich methdaliad yn dod i ben nes codi'r gohiriad. Nid yw rhyddhad

o fethdaliad yn rhoi pen ar eich ymddiriedolwr yn gweinyddu unrhyw asedau a ddaeth yn rhan o'ch ystâd fethdaliad.

Cydweithredu. Po fwyaf yr anhawster a gaiff y derbynnydd swyddogol i ddarganfod beth a achosodd yr ansolfedd neu i weinyddu'r asedau, hiraf oll fydd yr holl broses. Yn rhan o'r broses, gall ofyn i chi:

- gyflwyno datganiad o faterion ar lw (crynodeb o'ch asedau a'ch dyledion chi neu'r cwmni)
- darparu cyfrifon ar eich cyfer chi neu'r cwmni
- darparu cyfrif o'r holl ddelio mewn arian parod a nwyddau

Os na fyddwch yn cydweithredu â'r derbynnydd swyddogol, gall hefyd wneud cais i'r llys am eich archwiliad cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael eich holi mewn llys agored am eich materion, deiliaid a'ch eiddo chi neu'r cwmni.
Gall eich credydwyr chi neu rai'r cwmni fod yno hefyd a gallant hwy ofyn cwestiynau i chi hefyd.

O dan y ddeddfwriaeth ansolfedd a deddfwriaeth arall mae darpariaethau am **droseddau ac ymddygiad anaddas** gan gyfarwyddwyr a methdalwyr. Bydd y derbynnydd swyddogol yn adrodd i bencadlys y Gwasanaeth Ansolfedd os yw'n debyg bod tystiolaeth o droseddoldeb neu anaddasrwydd. Nid yw'r derbynnydd swyddogol yn dechrau drwy feddwl bod pob methdalwr a chyfarwyddwr wedi cyflawni troseddau

neu'n anaddas – ei swydd yw canfod y ffeithiau. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, nid yw'r ffeithiau hynny'n awgrymu y byddai er lles y cyhoedd dechrau achos troseddol, gwaharddiad neu gyfyngiadau methdaliad.

Sut allaf fi gael rhagor o wybodaeth?

Arweiniad cyffredinol yn unig sydd yn y daflen hon. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnydd eich achos, cysylltwch â swyddfa'r derbynnydd swyddogol (neu'r ymarferwr ansolfedd os penodwyd un) sy'n delio â'ch achos. **Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd na'i dderbynyddion swyddogol roi cyngor cyfreithiol nac ariannol**. Dylech geisio hwn gan ymarferwr ansolfedd awdurdodedig, cyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig, neu gynghorwr ariannol neu ganolfan gynghori gyfrifol.

Mae Siarter y Gwasanaeth Ansolfedd yn amlinellu'r gwasanaeth y disgwyliwn ei ddarparu i'r cyhoedd. Mae'r Siarter ar gael mewn derbynfeydd swyddfa ac o bob llys sy'n delio ag ansolfedd.

Mae amrywiaeth o gyhoeddiadau Gwasanaeth Ansolfedd ar gael o swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol. Maent yn ymddangos hefyd ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn www.insolvency.gov.uk

Mae canlyniadau perfformiad y Gwasanaeth Ansolfedd yn cael eu cyhoeddi yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Asiantaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol

Cyffredinol am ystadegau ansolfedd. Gallwch ddarllen copïau o bob adroddiad yn swyddfa eich derbynnydd swyddogol lleol neu eu prynu o'r Llyfrfa – teleffon 0870 600 5522. Ni allwn roi copïau o'r naill adroddiad i ffwrdd.

© Hawlfraint y Goron 2007.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint y Goron yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn dull diraddiol nac mewn cyd-destun camarweiniol. Lle bo'r deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei roi i eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a statws yr hawlfraint. Pe byddai cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig arall o'r deunydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid gwneud cais i'r Uned Hawlfraint, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y llyfryn hwn sy'n cael ei gydnabod fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen awdurdodiad i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Am fanylion pellach am drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler yr arweiniad cyfredol yn www.hmso.gov.uk/guides.htm a gyhoeddir gan Lyfrfa Ei Mawrhydi.

Gallwch gael copïau pellach o'r cyhoeddiad hwn drwy e-bost gan:
publications@berr.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk
http://www.insolvency.gov.uk

URN08/761